


Adolygiad o asesiad perthnasedd y BBC o'r ffrydiau newydd arfaethedigar BBC Sounds

Cyhoeddwyd 16 Gorffennaf 2024



Cynnwys

Adran

1. Trosolwg	3
2. Cefndir	5
3. Ein hadolygiad a'n casgliadau.....	8
4. Newidiadau arfaethedig y BBC i Radio 1 Dance.....	14
5. Cyfarwyddiadau.....	15

Atodiad

A1. Atodiad 1: Ein dull gweithredu dadansoddol.....	16
---	----

1. Trosolwg

- 1.1 Rydym wedi adolygu'r asesiad perthnasedd a ddarparwyd i ni gan y BBC ar 13 Mai 2024 mewn perthynas â'i gynigion i lansio ffrydiau cerddoriaeth newydd ar BBC Sounds.

Crynodeb o gynigion y BBC

- 1.2 Mae'r BBC yn cynnig lansio tair ffrwd gerddoriaeth newydd ar BBC Sounds rhwng mis Gorffennaf a mis Medi 2024. Mae'r ffrydiau Sounds yn unig yn estyniadau o dri o'i rwydweithiau cerddoriaeth presennol BBC Radio 1, BBC Radio 2 a BBC Radio 3. Dyma gynnwys arfaethedig y ffrydiau newydd (yn gryno):
- a) estyniad Radio 1 ychwanegol, yn canolbwyntio ar gerddoriaeth a gefnogir gan Radio 1 dros y ddau ddegawd diwethaf;
 - b) estyniad ar Radio 2, yn canolbwyntio ar hen gerddoriaeth pop;
 - c) estyniad ar Radio 3, yn canolbwyntio ar gerddoriaeth glasurol.
- [×]
- 1.3 Mae'r BBC hefyd yn bwriadu comisiynu rhywfaint o raglenni gwreiddiol ar gyfer Radio 1 Dance, ffrwd sy'n bodoli'n barod ar BBC Sounds.
- 1.4 Mae'r BBC wedi dod i'r casgliad nad yw'r tair ffrwd gerddoriaeth newydd y mae'n cynnig eu lansio yn newidiadau perthnasol. Mae'r BBC o'r farn bod y newid i'r ffrwd Radio 1 Dance bresennol yn ddatblygiad golygyddol/creadigol o ffrwd bresennol nad yw ychwaith yn newid perthnasol.

Crynodeb o'n penderfyniad

- 1.5 Rydym wedi adolygu asesiad y BBC ochr yn ochr â gwybodaeth arall a roddwyd i ni gan y BBC a rhanddeiliaid eraill. Rydym hefyd wedi cwrdd â rhanddeiliaid yn ystod ein hadolygiad. Mae ein hadolygiad o asesiad perthnasedd y BBC ar gyfer y ffrydiau BBC Sounds yn unig newydd hyn yn broses wahanol i Brawf Budd y Cyhoedd y BBC ar bedair gorsaf radio DAB+ newydd bosib.
- 1.6 Yn dilyn ein hadolygiad, rydym yn cytuno â'r BBC nad yw'r cynigion yn Wasanaethau Cyhoeddus newydd yn y DU, ond yn hytrach yn newidiadau i BBC Ar-lein, un o Wasanaethau Cyhoeddus presennol y DU.
- 1.7 Nid ydym yn ystyried bod lansio estyniad Radio 1 nac estyniad Radio 3, yn unigol neu'n gronnol, yn newidiadau a allai gael effaith andwyol sylweddol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol. Felly, nid ydym yn credu bod y newidiadau hyn yn berthnasol ac felly nid ydym yn mynnu bod y BBC yn cynnal Prawf Budd y Cyhoedd ar y ffrydiau hyn. Cytunwn hefyd nad yw'r newidiadau i ffrwd Radio 1 Dance yn berthnasol.
- 1.8 Rydym o'r farn bod lansio estyniad Radio 2 yn newid a allai gael effaith niweidiol sylweddol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol ac felly mae'n newid perthnasol. O ystyried ein canfyddiad o berthnasedd, rydym yn cyfarwyddo'r BBC i roi'r gorau i gyflawni'r newid arfaethedig mewn perthynas â ffrwd estyniad Radio 2 Sounds yn unig. Pe bai'r BBC yn

dymuno parhau i lansio ffrwd ymestyn Radio 2 Sain yn unig, byddai angen iddo gynnal Prawf Budd y Cyhoedd ar y cynnig hwn.¹

¹ Nid yw cyfarwyddyd i gynnal Prawf Budd y Cyhoedd yn golygu y bydd y BBC yn y pen draw yn cael ei atal rhag gwneud y newid. Mae'n golygu y byddai angen i'r BBC ystyried y manteision gwerth cyhoeddus a'r effaith debygol y gallai ei chael ar gystadleuaeth. Os yw'r newid yn bodloni Prawf Budd y Cyhoedd y BBC a bod Ofcom yn cytuno (ar ôl cael asesiad cystadleuaeth), yna gall y BBC barhau.

2. Cefndirs

Y fframwaith rheoleiddio

- 2.1 O dan y Cytundeb, mae'r BBC yn gyfrifol am asesu a yw newidiadau arfaethedig i'w Wasanaethau Cyhoeddus yn 'berthnasol' (y mae'n aml yn eu gwneud drwy asesiad perthnasedd). Mae newid yn berthnasol os yw'r BBC yn lansio Gwasanaeth Cyhoeddus newydd yn y DU, neu'n newid gwasanaeth presennol a allai gael effaith niweidiol sylweddol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol.²
- 2.2 Pan fydd newid yn berthnasol, mae'r BBC yn cynnal asesiad i weld a yw'r gwerth cyhoeddus yn cyfiawnhau effeithiau ar gystadleuaeth (prawf budd y cyhoedd). O dan y Cytundeb, mae'n rhaid i Ofcom adolygu a chymeradwyo'r holl newidiadau perthnasol i wasanaethau'r BBC cyn iddynt gael eu rhoi ar waith.³ Er nad yw'r Cytundeb yn nodi proses benodol i Ofcom adolygu canfyddiadau asesiadau perthnasedd lle mae'r BBC wedi canfod nad yw newid yn berthnasol, yn ymarferol mae'r BBC yn anfon ei asesiad perthnasedd at Ofcom i'w adolygu. Os byddwn yn anghytuno â'r BBC ar ôl adolygu asesiad y BBC nad yw'r newid arfaethedig yn berthnasol, mae gennym y pŵer i gamu i mewn a chyfarwyddo'r BBC i gynnal Prawf Budd y Cyhoedd.⁴

Cyd-destun y farchnad

- 2.3 Mae nifer o wasanaethau radio darlledu yn y DU, sy'n cael eu gweithredu'n bennaf gan y BBC, grwpiau radio masnachol a rhai darparwyr annibynnol llai. Mae gan y BBC ddeg gorsaf ledled y DU sy'n cynnig cymysgedd o gerddoriaeth a radio llafar. Mae hyn yn ategu gorsafoedd sy'n benodol i bob gwlad a rhanbarth lleol ar draws Lloegr, yn ogystal â ffrydiau ar-lein yn unig a BBC World Service.
- 2.4 Y ddau grŵp radio masnachol mwyaf yw Global a Bauer Media. Mae Global yn berchen ar frandiau gan gynnwys Capital, Heart, Smooth, LBC a Radio X, tra bod Bauer yn berchen ar frandiau gan gynnwys Absolute Radio, KISS, Magic, Hits Radio a Greatest Hits Radio. Mae Together Global a Bauer yn cyfrif am 45% o'r holl amser gwrando ar y radio ac 83% o'r holl wrando ar radio masnachol.⁵
- 2.5 Mae rhai grwpiau masnachol llai yn gweithredu ledled y DU, fel News Broadcasting (rhan o News UK) a Nation Broadcasting. Mae rhai gorsafoedd radio annibynnol llai ar waith ledled y DU hefyd, gan gynnwys Boom Radio, Fun Kids a GB News. Mae Boom Radio, a sefydlwyd ym mis Chwefror 2021, yn amlwg o ran ystyried effaith estyniad arfaethedig y BBC i Radio 2.
- 2.6 Mae'r holl wasanaethau radio hyn ar gael ar-lein drwy seinyddion clyfar, gwefannau agregwyr ac apiau fel Radioplayer, a gwefannau ac apiau perchnogol hynny yw BBC Sounds ('Sounds'), Global Player a Rayo ar gyfer gorsafoedd Bauer.

² [Cymal 7\(7\) o'r Cytundeb](#)


³ [Cymal 9\(1\) o'r Cytundeb](#)

⁴ [Cymal 9\(6\) o'r Cytundeb](#)

⁵ RAJAR Ch1 2024

- 2.7 Roedd ein datganiad ym mis Tachwedd 2021 [Safle BBC Sounds yn y farchnad](#) yn gosod Sounds yng nghyd-destun y farchnad sain ehangach. Dau duedd allweddol y gwnaethom dynnu sylw atynt yn y farchnad hon oedd twf plattfformau ffrydio byd-eang, sy'n defnyddio hysbysebion a modelau tanysgrifio i gynhyrchu referniw, a'r cynnydd cyson mewn gwrando ar-lein. Roedd y nifer sy'n gwrando ar y radio ar-lein yn cynyddu, ond nid ar yr un gyfradd â gweithgareddau sain ar-lein eraill.
- 2.8 Mae diwydiant radio'r DU yn dal i wynebu her gan wasanaethau ffrydio ar-lein byd-eang. Mae data a gasglwyd fel rhan o arolwg IPA TouchPoints yn awgrymu bod yr amser cyfartalog a dreulir yn gwrando ar sain bob wythnos wedi gostwng rhwng 2018 a 2023. Fodd bynnag, roedd cyfran yr amser hwnnw a oedd yn cael ei dreulio'n gwrando ar y radio hefyd wedi lleihau, wrth i fwy o amser gael ei dreulio ar wasanaethau ffrydio fel Spotify. Yn 2018, roedd radio yn cyfrif am 72% o wrando ar sain bob wythnos ac yn 2023 roedd hyn wedi gostwng i 64%, ac roedd faint o amser a dreulir yn gwrando ar wasanaethau ffrydio cerddoriaeth wedi cynyddu o 12% i 21%.
- 2.9 Mae ymddygiad gwrando ar y radio wedi parhau i esblygu dros y blynyddoedd diwethaf. Mae radio digidol (DAB) yn dal i gyfrif am fwy o wrando na radio analog (AM/FM) a gwrando ar-lein yn y drefn honno. Fodd bynnag, mae gwrando ar-lein wedi bod yn cynyddu'n raddol dros y blynyddoedd diwethaf ac yn Ch1 2024 roedd yn cyfrif am gyfran uwch o oriau gwrando nag AM/FM am y tro cyntaf.


Ffigur 1: Gwrando ar y radio yn ôl platfform: Ch3 2021 i Ch1 2024



Ffynhonnell: RAJAR. Mae DTV yn cyfeirio at wrando drwy set deledu ddigidol.

- 2.10 Mae'r twf mewn gwrando ar radio ar-lein wedi cael ei sbarduno'n bennaf gan radio masnachol, sydd wedi cynyddu ei gyfran o wrando ar-lein o 53% yn Ch3 2021 i 63% yn Ch1 2024. Mae gwrando'n fyw ar radio'r BBC ar-lein hefyd wedi cynyddu dros y cyfnod hwn, ond nid ar yr un gyfradd â radio masnachol, oherwydd y gostyngiad yn ei gyfran o wrando ar radio ar-lein.

Figur 2: Oriau gwranddo ar y radio ar-lein a'r gyfran fesul sector: Ch3 2021 i Ch1 2024



Ffynhonnell: RAJAR

Cynigion y BBC

Lansio ffrydiau BBC Sounds newydd

2.11 Mae'r BBC yn bwriadu lansio tair ffrwd newydd ar Sounds:

- Estyniad Radio 1 ychwanegol, yn canolbwyntio ar gerddoriaeth a gefnogir gan Radio 1 dros y ddau ddegawd diwethaf;
- Estyniad ar Radio 2, yn canolbwyntio ar hen gerddoriaeth pop;
- Estyniad ar Radio 3, yn canolbwyntio ar gerddoriaeth glasurol.

[X]

2.12 Mae'r BBC wedi asesu perthnasedd y newidiadau hyn ac mae o'r farn nad yw'r newidiadau hyn yn berthnasol.⁶

⁶ Yn ein cyhoeddiad, Sut mae Ofcom yn rheoleiddio effaith y BBC ar gystadleuaeth – [Newidiadau i ganllawiau a gofynion](#), Ebrill 2023, ac mae'n cael ei ailadrodd yn ein Hadroddiad Blynyddol ar y BBC [2022 – 23](#) Tachwedd 2023.

3. Ein hadolygiad a'n casgliadau

- 3.1 Fel y trafodwyd yn yr adran flaenorol, rydym wedi cynnal ein hadolygiad i weld a yw'r ffrydiau arfaethedig yn newidiadau perthnasol. Rydym yn trafod isod ein safbwyntiau ynghylch (i) a yw'r ffrydiau'n Wasanaethau Cyhoeddus newydd yn y DU; a (ii) a allai'r ffrydiau arfaethedig gael effaith niweidiol sylweddol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol.

A yw'r ffrydiau'n Wasanaethau Cyhoeddus newydd yn y DU

- 3.2 Rydym yn cytuno â chasgliadau'r BBC nad yw'r tair ffrwd arfaethedig ar Sounds yn Wasanaethau Cyhoeddus newydd yn y DU. Cadarnhaodd dyfarniad y Llys Gweinyddol yn *R (Radiocentre Ltd) v Ofcom a'r BBC (fel Parti â Diddordeb)* fod ffrydiau newydd ar Sounds yn newidiadau i Wasanaeth Cyhoeddus presennol BBC Ar-lein y DU.⁷

A all y ffrydiau gael effaith andwyol sylweddol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol

- 3.3 Fel sefydliad mawr a ariennir yn gyhoeddus sy'n gweithredu ar draws y sectorau teledu, radio ac ar-lein yn y DU, gallai newidiadau a wneir gan y BBC i'w wasanaethau sain gael effaith ar raddfa'r gystadleuaeth yn y sector sain. Gallai'r effaith hon fod yn negyddol gan y gallai lansio'r ffrydiau newydd gael gwared ar weithredwyr masnachol eraill drwy leihau eu gallu i gynhyrchu refeniw a buddsoddi yn eu gwasanaethau (neu lansio gwasanaethau newydd), gan leihau'r dewis cyffredinol, yr ansawdd a'r amrywiaeth o gynnwys sydd ar gael i ddefnyddwyr.⁸
- 3.4 Ym mis Ebrill 2023, gwnaethom gyhoeddi datganiad yn rhoi barn ar sefyllfa'r BBC yn y sector sain, a sut rydym yn debygol o fynd ati i ystyried yr effeithiau ar gystadleuaeth. Yn y ddogfen honno, fe wnaethom ddweud bod "newidiadau sy'n gyfyngedig i Sounds yn debygol o achosi risg isel o gael eu gwthio allan i ddarparwyr masnachol domestig."⁹ Roeddem wedi ailddatgan y safbwynt hwn yn ein Hadroddiad Blynyddol ar y BBC y llynedd.¹⁰
- 3.5 Mae'r BBC wedi cynnal ei asesiad ei hun o effaith bosibl y cynigion ar gystadleuaeth deg ac effeithiol. Ei ddull oedd amcangyfrif yn gyntaf yr oriau gwranddo cyfartalog yr wythnos ar gyfer pob un o'r ffrydiau arfaethedig. Yna diffiniodd y BBC restr o orsafoedd sy'n gystadluwyr ar gyfer pob ffrwd (yn seiliedig ar ei ymchwil ei hun a'i ymgysylltiad â rhanddeiliaid) a chyfrifo'r gwrandawyr posib a fyddai'n cael eu dargyfeirio oddi wrth bob gweithredwr masnachol i'r ffrwd berthnasol. Daeth y BBC i'r casgliad o'i ddadansoddiad y byddai effaith y ffrydiau arfaethedig ar y farchnad yn gyfyngedig o ystyried y gyfran isel o

⁷ [2023] EWHC 1977 (Gweinyddol).

⁸ Mewn rhai achosion eithafol, gallai hyn hefyd arwain at gwmnïau masnachol yn rhoi'r gorau i ddarparu gwasanaethau, gan danseilio dewis a lluosogrwydd ymhellach yn y sector sain.

⁹ Ofcom, [Sut mae Ofcom yn rheoleiddio effaith y BBC ar gystadleuaeth - newidiadau i ganllawiau a gofynion](#), Ebrill 2023, t.54.

¹⁰ Ofcom, [Adroddiad Blynyddol Ofcom ar y BBC 2022-23](#), Tachwedd 2023, t58.

oriau gwrandio y byddai pob cystadleuydd yn eu colli. O'r herwydd, mae'r BBC o'r farn na fyddai'r ffrydiau arfaethedig yn cael effaith sylweddol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol.

- 3.6 Rydym wedi adolygu asesiad ac ymatebion y BBC a gyflwynwyd gan randdeiliaid (gan gynnwys gwybodaeth gyfrinachol am refeniw / proffidioldeb nad yw wedi cael ei rhannu â'r BBC). Fel sy'n briodol ar hyn o bryd, ac yn unol â'n rôl o dan y Siarter a'r Cytundeb, rydym wedi cynnal yr adolygiad ar lefel uwch nag y byddai mewn asesiad cystadleuaeth gan y BBC ('Asesiad Cystadleuaeth y BBC') – gyda'r olaf yn mynnu ein bod yn cynnal ein hasesiad manwl ein hunain o'r gystadleuaeth, yn hytrach nag adolygu'r asesiad a ddarparwyd i ni gan y BBC.
- 3.7 O ystyried hyn, rydym wedi dibynnu'n bennaf ar ddadansoddiad y BBC fel man cychwyn ac wedi gwneud addasiadau amrywiol i'w model yn ôl yr angen – gweler atodiad 1 am ragor o wybodaeth. Er ein bod yn cydnabod ei bod yn anodd asesu effaith bosibl y cynnig hwn ar arferion gwrandio, oherwydd yr ansicrwydd wrth ragweld sut bydd gwrandawyr yn ymateb i'r ffrydiau arfaethedig, rydym wedi gwneud nifer o addasiadau i ddadansoddiad y BBC er mwyn cywiro anghysondebau a defnyddio mewnbynnau mwy priodol yn eu model (fel rhestr o gystadleuwyr wedi'i diweddarau).
- 3.8 Isod, rydym yn cyflwyno ein safbwyntiau ar y ffrydiau estyniad arfaethedig ar gyfer Radio 1 a Radio 3, lle rydym yn cytuno â chasgliadau'r BBC. Rydym wedyn yn nodi ein safbwyntiau ar y ffrwd estyniad arfaethedig ar gyfer Radio 2 lle rydym yn anghytuno â chasgliadau'r BBC.

Ein barn ar y ffrydiau estyniad arfaethedig ar gyfer Radio 1 a Radio 3

Ffrwd estyniad Radio 1

- 3.9 Amcangyfrifodd y BBC y bydd ffrwd estyniad Radio 1 yn gwrandio 0.412 miliwn o oriau yn wythnosol ac y bydd hyn yn debygol o gael effaith fach iawn ar weithredwyr masnachol.¹¹ Mae ein haddasiadau i ddull gweithredu'r BBC (a nodir yn atodiad 1) yn arwain at amcangyfrif o oriau gwrandio uwch ar gyfer ffrwd estyniad Radio 1 ac felly effaith ychydig yn uwch ar wrando ar draws yr holl gystadleuwyr perthnasol (colled mewn oriau gwrandio ar-lein o 0.5% neu lai ar draws grwpiau masnachol mawr perthnasol).
- 3.10 Yn gyffredinol, rydym o'r farn y bydd yr effaith ar y gweithredwyr masnachol yr effeithir arnynt yn debygol o fod yn gyfyngedig oherwydd y rhesymau canlynol.
- Rydym o'r farn mai'r gorsafoedd sy'n debygol yn bennaf o gael eu heffeithio yw'r rheini sy'n perthyn i'r ddau grŵp masnachol mwyaf, ac rydym yn deall bod y grwpiau hyn yn cynhyrchu refeniw yn bennaf ar sail nifer yr oriau sy'n cael eu gwrandio ar draws eu portffolios cyfan o orsafoedd. Mae ein dadansoddiad yn dangos bod lansio ffrwd estyniad Radio 1 yn debygol o arwain at golled isel mewn gwrandio ar draws holl bortffolios y grwpiau masnachol hyn, gan olygu effaith gyfyngedig. Mae ein dadansoddiad hefyd yn dangos bod yr effaith ar golli gwrandawyr ar gyfer gorsafoedd unigol yn y grwpiau masnachol hyn hefyd yn debygol o fod yn gyfyngedig.

¹¹ Mae'r BBC wedi amcangyfrif colled o 0.8% mewn oriau gwrandio ar-lein ar draws gweithredwyr masnachol perthnasol. Mae'r BBC yn amcangyfrif bod hyn yn cyfateb i golli 0.2% o gyfanswm yr oriau gwrandio ar draws y cystadleuwyr a nodwyd.

- Mae'r sector radio masnachol yn ei gyfanrwydd yn cynhyrchu llai o refeniw o wrando ar-lein na phlatfformau eraill. Mae hyn yn awgrymu ymhellach y byddai'r effaith ar y grwpiau masnachol mawr hyn yn debygol o fod yn isel.
 - Rydym hefyd yn nodi bod gwrandio ar y ffrydiau blaenorol a lanswyd gan y BBC (ee Radio 1 Dance) wedi bod yn isel ac nid yw'n ymddangos eu bod wedi arwain at unrhyw effaith sylweddol ar y gweithredwyr masnachol hynny sydd â gorsafoedd cystadleuol i'r ffrydiau hyn.
- 3.11 I gloi, ar sail yr holl dystiolaeth sydd ar gael i ni, rydym o'r farn nad yw lansio ffrwd estyniad Radio 1 yn newid perthnasol.

Ffrwd estyniad Radio 3

- 3.12 Amcangyfrifodd y BBC y bydd ffrwd estyniad Radio 3 yn debygol o gael 0.16 miliwn o oriau gwrandio yn wythnosol ac y bydd hyn yn debygol o gael effaith fach iawn ar weithredwyr masnachol.¹² Mae ein haddasiadau i ddull gweithredu'r BBC yn arwain at amcangyfrif o oriau gwrandio uwch ar gyfer ffrwd estyniad Radio 3 ac felly effaith ychydig yn uwch ar draws yr holl gystadleuwyr perthnasol (colled mewn oriau gwrandio ar-lein o 0.2% neu lai ar draws grwpiau masnachol mawr perthnasol).
- 3.13 Yn gyffredinol, rydym o'r farn y bydd yr effaith ar y gweithredwyr masnachol yn debygol o fod yn gyfyngedig oherwydd y rhesymau canlynol.
- Rydym o'r farn mai'r gorsafoedd sy'n debygol o gael eu heffeithio yw'r rheini sy'n perthyn i'r ddau grŵp masnachol mwyaf, ac rydym yn deall bod y grwpiau hyn yn cynhyrchu refeniw yn bennaf ar sail nifer yr oriau sy'n cael eu gwrandio ar draws eu portffolios cyfan o orsafoedd. Mae ein dadansoddiad yn dangos bod lansio ffrwd estyniad Radio 3 yn debygol o arwain at gollod isel mewn gwrandio ar draws holl bortffolios y grwpiau masnachol hyn (yn lleihau gwrandio ar-lein o 0.2% neu lai), gan olygu effaith gyfyngedig.¹³ Mae ein dadansoddiad hefyd yn dangos bod yr effaith ar wrando ar gyfer gorsafoedd unigol yn y grwpiau masnachol hyn hefyd yn debygol o fod yn gyfyngedig.
 - Mae'r sector radio masnachol yn gyffredinol hefyd yn cynhyrchu llai o refeniw cymesur o wrando ar-lein na phlatfformau eraill, gan awgrymu ymhellach y byddai'r effaith ar y grwpiau masnachol mawr hyn yn debygol o fod yn isel.
 - Rydym hefyd yn nodi bod gwrandio ar y ffrydiau blaenorol a lanswyd gan y BBC (ee Radio 1 Relax) wedi bod yn isel ac nid yw'n ymddangos eu bod wedi arwain at unrhyw effaith sylweddol ar y gweithredwyr masnachol hynny sydd â gorsafoedd cystadleuol i'r ffrydiau hyn.
- 3.14 I gloi, ar sail y dystiolaeth sydd ar gael i ni, rydym o'r farn nad yw ffrwd estyniad Radio 3 yn newid perthnasol.

¹² Mae'r BBC wedi amcangyfrif colled o 1.6% mewn oriau gwrandio ar-lein ar draws gweithredwyr masnachol perthnasol. Mae'r BBC yn amcangyfrif bod hyn yn cyfateb i golli 0.3% o gyfanswm yr oriau gwrandio ar draws y cystadleuwyr a nodwyd.

¹³ Mae'r effaith hon yn debygol o fod hyd yn oed yn is os ydym yn ystyried y gallai rhywfaint o'r gwrandio ar gyfer estyniad Radio 3 ddod o ffynonellau nad ydynt yn rhai sain (ee YouTube ac apiau ymwybyddiaeth ofalgar ac ati).

Casgliad ar ffrydiau estyniad Radio 1 a 3

- 3.15 Gyda'i gilydd, mae ein dadansoddiad yn dangos bod y golled mewn gwrandawyr ar draws holl bortffolios y grwpiau masnachol yr effeithir arnynt yn debygol o fod yn isel oherwydd lansio'r ddwy ffrwd estyniad hyn – llai nag 1% yn unigol ac ar y cyd ar y cyfan – sy'n awgrymu y bydd y ffrydiau arfaethedig yn cael effaith gyfyngedig ar y gweithredwyr hyn. Rydym hefyd o'r farn bod y gostyngiad mewn gwrandawr ar gyfer gorsafoedd unigol yn debygol o fod yn gyfyngedig. O'r herwydd, ein barn ni yw nad yw'r ffrydiau estyniad Radio 1 a 3 gyda'i gilydd yn gyfystyr â newid perthnasol.
- 3.16 Yn ychwanegol, rydym yn nodi [3.16]:
- 3.17 Mae rhanddeiliaid wedi cyflwyno tystiolaeth i ymgynghoriad Prawf Budd y Cyhoedd y BBC sy'n ymwneud â gwrandawr ar-lein (a DAB+) ar orsafoedd arfaethedig y BBC. Fodd bynnag, ni wnaethom ystyried bod y dystiolaeth hon yn cynnig ffordd well o asesu perthnasedd (o gymharu â'r dystiolaeth uchod) gan fod y dystiolaeth a gyflwynwyd yn canolbwyntio'n bennaf ar effaith lansio'r orsaf DAB+ a'r orsaf ar-lein ar yr un pryd yn hytrach na lansio'r ffrydiau Sounds yn unig.
- 3.18 Os byddwn yn gweld neu'n nodi tystiolaeth sy'n dod i'r amlwg bod lansio'r ffrydiau hyn ar Sounds yn cael effaith niweidiol ar gystadleuaeth yn y maes hwn, mae gennym yr adnoddau rheoleiddio i fynd i'r afael â hyn drwy ddefnyddio adolygiad cystadleuaeth y BBC.¹⁴

Ein barn ar ffrwd estyniad arfaethedig Radio 2

- 3.19 Dywedodd y BBC mai ffrwd estyniad Radio 2 sy'n debygol o gael yr effaith fwyaf ar orsafoedd cystadleuol a nodwyd, gydag amcangyfrif o wrandawyr wythnosol o 2.9 miliwn o oriau. Barn y BBC yw bod yr effaith o 3.3% ar oriau radio ar-lein ar draws y rhestr o gystadleuwyr a ddefnyddiwyd ganddynt yn unol â phenderfyniadau blaenorol nad oedd newid yn berthnasol.¹⁵
- 3.20 Ar ôl asesu cynlluniau'r BBC ar gyfer y ffrwd estyniad hon, rydym yn anghytuno â chasgliadau'r BBC. Arweiniodd ein haddasiadau i ddull gweithredu'r BBC (wedi'i grynhoi yn atodiad 1) at amcangyfrif ychydig yn uwch o oriau gwrandawr ar gyfer ffrwd estyniad Radio 2, a arweiniodd, ynghyd ag addasiadau eraill i'r rhestr o gystadleuwyr a phwysoliad, at effaith fwy ar weithredwyr masnachol. Mae'r effaith hon yn wahanol ar sail a yw'r orsaf yn orsaf annibynnol neu'n perthyn i grŵp masnachol mwy.
- 3.21 Ar gyfer y grwpiau masnachol sy'n berchen ar bortffolio o orsafoedd, rydym o'r farn mai effaith gyfyngedig y bydd ffrwd estyniad Radio 2 yn debygol o'i chael ar eu model busnes cyffredinol. Y rheswm am hyn yw y bydd ffrwd estyniad Radio 2 yn debygol o gael effaith fach ar wrandawr ar draws eu portffolios cyfan (llai na 2% ar gyfer oriau gwrandawr ar-lein a llai na 0.5% ar gyfer cyfanswm yr oriau gwrandawr) ac oherwydd eu bod yn cynhyrchu llai o refeniw cymesur o wrandawr ar-lein o'i gymharu â phlatfformau eraill.

¹⁴ Gallwn gynnal adolygiad cystadleuaeth y BBC os oes gennym sail resymol dros gredu bod cyflawni un o'r Gwasanaethau Cyhoeddus yn y DU yn cael effaith niweidiol sylweddol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol.

¹⁵ Mae'r BBC yn amcangyfrif colled o 5.8% mewn oriau gwrandawr ar-lein ar gyfer Boom Radio, a 3.1% o'r effaith gyffredinol ar oriau gwrandawr Boom Radio. Ar draws y set gyfan o gystadleuwyr yn rhestr hen ganeuon poblogaidd a chaneuon tebyg y BBC, mae'r BBC yn amcangyfrif colled o 1% yng nghyfanswm yr oriau gwrandawr.

- 3.22 Fodd bynnag, rydym yn credu y gallai ffrwd estyniad Radio 2, ar sail y dystiolaeth sydd ar gael ar hyn o bryd, gael effaith sylweddol ar yr orsaf radio annibynnol Boom Radio.
- Mae Boom Radio yn orsaf gerddoriaeth sy'n targedu cenhedlaeth y 'baby boomers'. Mae'n canolbwyntio ar ddarparu "clasuron y 60au ac atgofion y 70au" (yn ogystal â rhai caneuon hŷn a mwy newydd a allai apelio at y ddemograffeg hon) sy'n golygu bod rhywfaint o orgyffwrdd â'r ddemograffeg darged a nodwyd ar gyfer estyniad Radio 2 (hynny yw gwrandawyr 55 oed a hŷn sydd eisiau gwrandawyr ar hen gerddoriaeth).¹⁶ Mae'r BBC a rhanddeiliaid radio masnachol o'r farn bod yr hyn sy'n debyg mewn cerddoriaeth yn ffactor pwysig i benderfynu pa orsafoedd y bydd ffrwd estyniad Radio 2 yn debygol o gael mwy o effaith arnynt. Rydym felly wedi defnyddio tebygrwydd mewn cerddoriaeth (ynghyd â thebygrwydd o ran cynulleidfa darged) i bennu'r effaith bosibl ar rhanddeiliaid masnachol. Mae ein dadansoddiad yn dangos y gallai Boom Radio golli canran uwch o'i wrandawyr ar-lein na grwpiau masnachol eraill (tua 9%) a thua 5% o gyfanswm ei oriau gwrandawyr (hynny yw ar-lein a thrwy DAB) oherwydd lansio ffrwd estyniad Radio 2.
 - Fel y nodwyd yn ein [canllawiau](#),¹⁷ un ffactor y gallem ei ystyried yw "a oes cystadleuwyr (neu gystadleuydd unigol) sy'n debygol o gael eu heffeithio'n sylweddol gan newid [arfaethedig]". Nodwn nad yw Boom Radio yn rhan o grŵp masnachol mawr, sy'n golygu na all ddibynnu ar bortffolio ehangach o orsafoedd eraill i liniaru effaith bosibl ffrwd estyniad Radio 2. Mae hyn yn golygu y bydd ffrwd estyniad Radio 2 yn debygol o gael mwy o effaith ar Boom Radio nag ar y grwpiau masnachol mawr.
 - Mae Boom Radio hefyd yn fusnes cymharol newydd a ddechreuodd ddarlledu yn 2021 ac mae busnesau newydd yn tueddu i fod yn fwy agored i newidiadau allanol yn eu blynyddoedd cychwynnol. Mae hyn yn golygu y gallai'r golled mewn gwrandawyr greu risg sylweddol i allu Boom Radio i gynhyrchu refeniw, cyrraedd proffidioldeb a buddsoddi mewn gwasanaethau newydd.
 - Yn ddiweddar, lansiodd Boom Radio ddwy chwaer orsaf ar-lein yn unig hefyd - Boom Light (2022) yn canolbwyntio ar gerddoriaeth o'r 1950au a Boom Rock (2023) yn chwarae cerddoriaeth roc a roc caled.¹⁸ Mae potensial y gallai lansio ffrwd estyniad Radio 2 effeithio ymhellach ar allu Boom Radio i weithredu'r ddwy chwaer orsaf hyn gan ein bod yn deall bod y ddwy orsaf hyn ar hyn o bryd yn dibynnu ar brif orsaf Boom Radio ar gyfer gwrandawyr / trawshyrwyddo.
- 3.23 I grynhoi, mae gan Boom Radio safle cymharol unigryw yn y sector radio o ystyried ei statws fel gorsaf radio annibynnol sy'n canolbwyntio ar wasanaethu gwrandawyr hŷn (baby boomers) gyda chymysgedd o hen gerddoriaeth a cherddoriaeth fwy newydd.¹⁹ Rydym yn deall gan Boom Radio ei fod wedi cael ei sefydlu i ddarparu ar gyfer gwrandawyr hŷn yn dilyn newidiadau i'r amserlen ar Radio 2.²⁰ Mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn ei sylfaen

¹⁶ [Tudalen groeso Boom Radio](#) Gorffennaf 2024

¹⁷ Ofcom, [Canllawiau ar gyfer asesu effaith y newidiadau arfaethedig i weithgareddau gwasanaeth cyhoeddus y BBC](#) Ebrill 2023, t.18.

¹⁸ Gan fod y gorsafoedd hyn ar-lein yn unig, nid yw ffigurau gwrandawyr ar gael ar RAJAR ac nid ydynt wedi'u cynnwys yn ein dadansoddiad.

¹⁹ Mae gorsafoedd masnachol eraill sy'n targedu'r gynulleidfa hon yn rhan o grwpiau masnachol mawr ac fel arfer mae ganddynt lyfrgell gerddoriaeth lai ee caneuon o ddegawd penodol. Roedd ein dadansoddiad o ddata Radiomonitor yn dangos bod Boom Radio wedi chwarae amrywiaeth ehangach o gerddoriaeth (hynny yw nifer uwch o ganeuon penodol) na gorsafoedd cystadleuol posibl eraill rhwng 31 Rhagfyr 2023 a 17 Mai 2024.

²⁰ [Phil Riley a Boom Radio: Booming Success \(ceotodaymagazine.com\)](#)

gwrandawyr, gan fod ganddo gyfran uwch o wrandawyr 55 oed a hŷn o'i gymharu â'r gorsafoedd cystadleuol posibl eraill i ffrwd estyniad Radio 2.²¹ Rydym hefyd yn nodi bod gan Boom Radio gynulleidfa wythnosol gyfartalog o 602k o wrandawyr ar hyn o bryd, er bod hyn wedi cyrraedd 662k yn Ch3 2023, ac mae ganddo 7.1m o oriau gwrando bob wythnos (55% neu 3.9m o'r rheini ar-lein).²² O'r herwydd, gallai lansio ffrwd estyniad Radio 2 gael effaith niweidiol ar gystadleuaeth drwy leihau'r gwrando a'r refeniw i Boom Radio, gan leihau ei allu i fuddsoddi mewn cynnwys newydd a gwasanaethu'r gwrandawyr hyn.

- 3.24 Yn ychwanegol, o ystyried y drafodaeth uchod, rydym o'r farn bod perygl y gallai lansio ffrwd estyniad Radio 2 atal mynediad a lleihau cymhellion buddsoddi ar gyfer gorsafoedd radio annibynnol. Y rheswm am hyn yw y gallai gorsafoedd annibynnol fod yn llai tebygol o fuddsoddi a mynd i ardal newydd os ydynt yn credu y byddai'n cael ei effeithio pe byddai'r BBC yn mynd ati i lansio cynnig tebyg yn ddiweddarach.
- 3.25 Er nad oes trothwy rhifiadol penodol i benderfynu a yw newid gan y BBC yn berthnasol, ein barn ni yw bod y ffactorau uchod yn ddigonol i ddod i'r casgliad y gallai ffrwd estyniad Radio 2 gael effaith niweidiol sylweddol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol. Rydym yn cydnabod bod ffactorau eraill a allai liniaru'r effaith ar gystadleuaeth, a nodwyd yng ngweddill dogfen y BBC. Fodd bynnag, am y rhesymau a nodir isod, nid yw'r rhain yn newid ein casgliadau.
- Bwriad ein safbwynt ar Sounds yn ein datganiad ym mis Ebrill 2023 oedd rhoi arweiniad i'r BBC ar fan cychwyn posibl ein dadansoddiad. Fe wnaethom ddweud na fyddai hyn yn "pennu ymlaen llaw nac yn cyfyngu ar ganlyniad unrhyw asesiad".²³ Fe wnaethom hefyd ddweud y byddem yn dal i ddisgwyl i'r BBC (ac Ofcom) asesu newidiadau fesul achos, gan gynnwys a allai'r newidiadau effeithio ar set benodol a chyfyngedig iawn o gystadleuwyr.²⁴
 - Rydym yn deall bod cyllideb arfaethedig y BBC ar gyfer ffrwd estyniad Radio 2 yn isel gan fod cyfran o gyllideb bresennol y BBC ar gyfer Radio 2 a gallai hyn ddangos bod yr effaith ar randdeiliaid yn isel. Rydym yn nodi yn ein [canllawiau](#) y byddem yn wylidwrus rhag dibynnu ar drothwyon penodol gan y gallai hyn gael effaith fawr ar rai gweithredwyr masnachol o hyd.²⁵ Beth bynnag, mae'r BBC wedi amcangyfrif ei fod yn gwrando'n sylweddol uwch ar ffrwd estyniad Radio 2 o'i gymharu â'r ffrydiau estyniad arfaethedig eraill. Mae hyn yn dangos bod y BBC hefyd yn credu y bydd ffrwd estyniad Radio 2 yn cael mwy o effaith waeth beth fo lefel y gyllideb.
- 3.26 I gloi, ar ôl ystyried y dystiolaeth sydd ar gael a'r ffactorau a nodir uchod, rydym o'r farn bod y newid arfaethedig yn un a allai gael effaith niweidiol sylweddol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol. Rydym felly o'r farn bod lansio estyniad Radio 2 yn golygu newid perthnasol.

²¹ Yn ôl ffigurau RAJAR Ch1 2024, mae 75% o gyfanswm cynulleidfa Boom yn 55 oed a hŷn ac 81% o'i chynulleidfa ar-lein yn 55 oed a hŷn.

²² RAJAR Ch1 2024

²³ Ofcom, [Sut mae Ofcom yn rheoleiddio effaith y BBC ar gystadleuaeth - newidiadau i ganllawiau a gofynion](#), Ebrill 2023, t.16.

²⁴ Ofcom, [Sut mae Ofcom yn rheoleiddio effaith y BBC ar gystadleuaeth - newidiadau i ganllawiau a gofynion](#), Ebrill 2023, t.10.

²⁵ Ofcom, [Canllawiau ar gyfer asesu effaith y newidiadau arfaethedig i weithgareddau gwasanaeth cyhoeddus y BBC](#) Ebrill 2023, t.12.

4. Newidiadau arfaethedig y BBC i Radio 1 Dance

- 4.1 Mae penderfyniadau y mae'r BBC yn eu gwneud sy'n rhan o'i fusnes o ddydd i ddydd, ac nid yn 'berthnasol' yn ystyr penodol y term a nodir yn y Cytundeb. Mae'r rhain yn cynnwys newidiadau sy'n golygu nad yw cymeriad a graddfa bresennol y gwasanaeth yn newid yn ei hanfod.²⁶
- 4.2 Mae'r BBC yn cynnig comisiynu rhai rhaglenni gwreiddiol ar gyfer Radio 1 Dance, sy'n ffrwd bresennol ar Sounds. Ers ei lansio, dim ond cynnwys sydd eisoes ar gael ar Sounds y mae wedi'i gynnwys. Yn gryno, mae'r BBC o'r farn bod comisiynu nifer fach o raglenni gwreiddiol ar gyfer Ffrwd bresennol Radio 1 Dance yn newid "busnes fel arfer". Mae'r BBC yn dweud bod y newid yn olygyddol / creadigol ei natur ac mae'n benderfyniad sy'n ymwneud ag amserlennu / newid yn y cymysgedd genre neu sain nad yw'n newid cymeriad y ffrwd yn sylweddol nac o ran perthnasedd. Mae'r BBC hefyd yn nodi nad yw'r newid yn y gyllideb yn newid graddfa'r gwasanaeth sy'n berthnasol i'r farchnad yn sylweddol. O'r herwydd, nid yw'r BBC wedi cynnal asesiad perthnasedd llawn.
- 4.3 Rydym wedi adolygu nodyn ffeil y BBC ar y cynigion. Rydym yn deall gan y BBC fod Ffrwd Radio 1 Dance wedi parhau i berfformio'n sylweddol is na'r [3<] o oriau gwrando wythnosol a amcangyfrifwyd yn yr asesiad perthnasedd gwreiddiol ac ar lefel sy'n gyson â'i pherfformiad yn y cyfnod cyn yr adolygiad barnwrol (y casgliad oedd nad oedd yr effaith ar y farchnad yn berthnasol). Rydym yn cytuno bod y cynigion yn newid yn yr amserlen / cymysgedd o genres sy'n golygu nad yw cymeriad neu raddfa'r gwasanaeth yn newid yn ei hanfod. Gan ystyried hyn, nid ydym yn credu bod y newidiadau i'r Ffrwd bresennol ar gyfer Radio 1 Dance yn berthnasol.

²⁶ Gweler [Polisi'r BBC ar newidiadau perthnasol i weithgareddau gwasanaeth cyhoeddus a gweithgareddau masnachol y BBC](#), Awst 2017 ac Ofcom, [Canllawiau ar gyfer asesu effaith newidiadau arfaethedig i weithgareddau gwasanaeth cyhoeddus y BBC](#), Ebrill 2023, t. 13.

5. Cyfarwyddiadau

- 5.1 Rydym wedi ystyried pa gyfarwyddiadau y mae'n briodol eu rhoi i'r BBC yn unol â chymal 9(6) y Cytundeb a'r Gofynion Penodedig perthnasol.²⁷ ²⁸ Wrth wneud hynny, rydym wedi ystyried dyletswyddau Ofcom o dan adran 3 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 ac Erthygl 45(2) o'r Siarter.²⁹
- 5.2 Fel y nodir yn adran 3, rydym wedi dod i'r casgliad bod newid arfaethedig y BBC mewn perthynas â ffrwd estyniad Radio 2 yn golygu newid sylweddol yn unol â chymal 7(7)(b) y Cytundeb.

Cyfarwyddiadau

- 5.3 Rydym felly'n gwneud y cyfarwyddiadau canlynol yn unol â Chymal 9(6) y Cytundeb a'r Gofynion Penodedig perthnasol:
1. Rhaid i'r BBC roi'r gorau i gyflawni'r newid arfaethedig mewn perthynas â ffrwd estyniad Radio 2 Sounds yn unig.

Petai'r BBC yn dymuno parhau i lansio ffrwd estyniad Radio 2 Sounds yn unig:
 2. Bydd y BBC yn cynnal Prawf Budd y Cyhoedd ar y newid arfaethedig mewn perthynas â ffrwd estyniad Radio 2 Sounds yn unig yn unol â Chymal 8 y Cytundeb.

²⁷ [Y Cytundeb](#).

²⁸ Y "gofynion penodedig" fel y'u diffinnir gan gymal 59(a) o'r Cytundeb. Rhestrir y gofynion 'perthnasol' penodedig gan Ofcom, [Canllawiau ar gyfer asesu effaith newidiadau arfaethedig i weithgareddau gwasanaeth cyhoeddus y BBC](#), Ebrill 2023, tt. 26 – 27.

²⁹ Siarter

A1. Atodiad 1: Ein dull gweithredu dadansoddol

- A1.1 Rydym wedi adolygu dadansoddiad y BBC ac wedi gwneud nifer o addasiadau i gywiro anghysondebau yng nghyfrifiadau'r BBC ac i ddefnyddio mewnbynnau mwy priodol lle bo hynny'n berthnasol.
- A1.2 Rydym wedi gwneud dau addasiad i fethodoleg y BBC ar gyfer cyfrifo'r nifer sy'n debygol o wrando ar y ffrydiau estyniad newydd. Mae cymryd y ddau gyda'i gilydd yn arwain at gynnydd net yn yr amcangyfrif o'r gwrandawyr ar draws y tair ffrwd estyniad. Dyma'r addasiadau hyn:
- Dywedodd y BBC wrthym am wall yn eu hamcangyfrifon o ran gwrando, sy'n golygu eu bod yn credu bod eu canlyniadau'n oramcangyfrif o ran y gwrando tebygol ar ffrwd estyniad Radio 2. Rydym wedi cynnwys y cywiriad hwn yn ein dadansoddiad i sicrhau bod y cyfrifiadau'n gyson ar draws y tri estyniad.³⁰
 - Yn dilyn sylwadau rhanddeiliaid ar ei ddiweddariad asesiad perthnasedd cychwynnol, cynyddodd y BBC ei amcangyfrifon i gyfrif am wahaniaethau mewn data gwrando a adroddwyd gan ei systemau mewnol (ffrydio cynnwys ar Sounds) a data gwrando a adroddwyd gan RAJAR (gwrando ar-lein ar radio byw).³¹ Cyfrifodd y BBC y cynnydd hwn drwy rannu'r gwrando ar radio byw ar-lein ar orsafoedd y BBC a adroddwyd gan RAJAR gan ddata ffrydio Sounds.
 - Rydym yn cytuno bod cynnydd yn briodol gan fod gwahaniaethau cynhenid rhwng y gwrando a fesurir ar RAJAR a'r metrigau ffrydio a ddefnyddir gan y BBC. Mae data RAJAR yn seiliedig yn bennaf ar ddata'r dyddiadur: mae ymatebwyr yn cofnodi pa orsafoedd radio roeddent yn gwrando arnynt, ble roeddent yn gwrando (gartref, mewn car/fan/lori, yn y gwaith/mewn lleoliadau eraill) a sut roeddent yn gwrando (AM/FM, DAB, DTV, rhyngwyd, seinydd clyfar) mewn cynyddiadau 15 munud drwy gydol y dydd am wythnos lawn (dydd Llun i ddydd Sul). Ein dealltwriaeth o'r data ffrydio a ddefnyddir gan y BBC yw ei fod yn cynnwys nifer y cyfrifon defnyddwyr sydd wedi chwarae unrhyw gynnwys ar Sounds ac am ba mor hir, heb gynnwys ffrydio ar y mwyafrif o seinyddion clyfar. Gyda'i gilydd, mae'r gwahaniaethau hyn yn golygu bod data gwrando ar-lein gan RAJAR yn debygol o fod yn uwch na'r hyn sy'n cael ei gofnodi yn nata ffrydio Sounds ac felly mae cynnydd yn briodol.
 - Fodd bynnag, rydym o'r farn y dylid defnyddio ffactor cynnydd uwch, gan ddefnyddio'r ffigur gwrando byw o Sounds yn hytrach na chyfanswm y ffigur gwrando (sy'n cyfeirio at gynnwys byw ac ar-alw), er mwyn mynd i'r afael â'r gwahaniaethau hyn yn well.

³⁰ Rydym wedi gwneud y cywiriad hwn at ddibenion cysondeb, ond rydym yn cadw'r hawl i wneud dadansoddiad pellach o'r amcangyfrifon ar gyfer gwrando ar DAB ar ôl i'r BBC gyflwyno ei brawf budd y cyhoedd.

³¹ Sylwch nad yw data RAJAR yn dal y nifer sy'n gwrando ar ffrydiau BBC Sounds yn unig na gorsafedd masnachol ar-lein yn unig.

A1.3 Rydym wedi addasu dau fewnbwn ymhellach i fethodoleg y BBC ar gyfer cyfrifo'r effaith debygol ar y cystadleuwyr perthnasol ar gyfer pob estyniad, ac mae cymryd y ddau addasiad gyda'i gilydd yn arwain at fwy o effaith ar bob cystadleuydd. Dyma'r addasiadau hyn:

- Defnyddiodd y BBC ymchwil cynulleidfa ac ymgysylltu â rhanddeiliaid i ddiffinio rhestr o gystadleuwyr ar gyfer pob ffrwd estyniad arfaethedig (roedd gan rhanddeiliaid safbwyntiau gwahanol ar y cystadleuwyr tebygol ar gyfer pob ffrwd estyniad). Yn gyffredinol, po fwyaf yw'r rhestr o gystadleuwyr, y mwyaf fydd yr effaith, a'r lleiaf fydd yr effaith debygol ar unrhyw weithredwr masnachol penodol. Rydym wedi cynnal dadansoddiad pellach o'r cystadleuwyr tebygol ar gyfer pob ffrwd estyniad, ar sail yr hyn sy'n debyg o ran cerddoriaeth rhwng ffrydiau estyniad arfaethedig y BBC a gweithredwyr masnachol.³² Mae'r addasiadau hyn wedi arwain yn fras at restr lai o gystadleuwyr ar gyfer y ffrydiau estyniad arfaethedig ar gyfer Radio 1 a Radio 2 na'r rhai a gynigir gan y BBC.
- Ar gyfer ffrwd estyniad Radio 2, roedd y BBC wedi diffinio rhestr o orsafoedd cystadleuwyr a oedd, yn eu barn nhw, yn gystadleuwyr agosach na gorsafoedd eraill. Yna fe wnaethant gymhwyso pwysoliad o 2 i'r cystadleuwyr agosach hyn ac 1 i gystadleuwyr eraill. Yn gyffredinol, mae pwysoliad mwy yn golygu y bydd cyfran uwch o'r gwrando'n cael ei ddargyfeirio o'r orsaf benodol honno. Rydym wedi defnyddio dau bwysoliad arall i amcangyfrif y gwrando tebygol y gallai pob gorsaf ei golli i ffrwd estyniad Radio 2 gan ein bod yn credu y gallai'r pwysau hyn adlewyrchu'n well y tebygrwydd rhwng gorsafoedd cystadleuwyr a'r estyniad Radio 2 na dull gweithredu'r BBC. Mae'r pwysau hyn yn seiliedig ar y canlynol:
 - Cyfran gwrandawyr yr orsaf honno o fewn ystod oedran cynulleidfa darged y BBC (hynny yw cyfran y gwrandawyr 55 oed a hŷn);

Gallai canran y gerddoriaeth sy'n cael ei chwarae gan yr orsaf honno a nodwyd gan y BBC fod yn berthnasol i'r estyniad arfaethedig (hynny yw cyfran y caneuon sy'n cael eu chwarae o'r 50au, y 60au a'r 70au).³³

³² Rydym yn cydnabod bod ffactorau eraill sy'n bwysig o ran deall y tebygrwydd rhwng gorsafoedd/ffrydiau, fel polisi cyflwynwyr a cherddoriaeth, ond mae'n anodd mesur y ffactorau hyn.

³³ Yn ôl data gan Radiomonitor sy'n dangos y prif 5,000 o ganeuon a gafodd eu chwarae ar bob gorsaf cystadleuwyr rhwng 31 Rhagfyr 2023 a 17 Mai 2024.